

Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2023-2028

Adroddiad Ymgynghori



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

Cyflwyniad

Datblygwyd Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Safon 145.

Mae'r Safon yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gynhyrchu, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5-mllynedd sy'n nodi sut rydych yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal, ynghyd â tharged ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth ddrafft y Cyngor ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg a'r cynllun gweithredu cysylltiedig am gyfnod o 4 wythnos, o 17 Ebrill tan 15 Mai 2023.

Cafwyd cyfanswm o 133 o ymatebion, gan gynnwys ymatebion o dri sefydliad, trwy'r arolwg ar-lein a'r blychau arolwg. Cynhaliwyd nifer cyfyngedig o ymgynghoriadau wyneb yn wyneb yn ogystal, ym Mhort Talbot, Castell-nedd, Pontardawe, Creunant a Pharc Margam.

Lle defnyddiwyd dyfyniadau gan ymatebwyr, sylwer bod y rhain wedi'u dyfynnu'n uniongyrchol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

1. Ymgynghori

Er mwyn helpu i sicrhau bod yr ymgynghoriad ar gael mor helaeth â phosib, roedd nifer o ffyrdd y gallai pobl eu defnyddio i gyflwyno barn. Ceir rhagor o fanylion yn y Cynllun Ymgynghori ac Ymgysylltu (Atodiad 1).

Roedd y rhain yn cynnwys:

- arolwg/holiadur ar-lein trwy wefan y Cyngor
- pecynnau ymgynghori mewn llyfrgelloedd lleol a chymunedol a chanolfannau dinesig
- hyrwyddo trwy e-bost i ystod o randdeiliaid
- hyrwyddo trwy negeseuon cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol y Cyngor
- digwyddiadau ymwybyddiaeth/ymgynghori a gynhaliwyd ym Mhort Talbot, Castell-nedd, Pontardawe, Creunant a Pharc Margam – Sicrhawyd bod yr holiadur manwl ar gael yn y digwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd mewn amrywiol leoliadau ym Mhort

Talbot, Castell-nedd a Phontardawe; cwblhawyd rhai holiaduron ar y pryd, tra cymerwyd eraill i ffwrdd i'w dychwelyd i lyfrgelloedd lleol neu ganolfannau dinesig. Roedd y digwyddiadau hyn hefyd yn gyfle i bobl wneud sylwadau cyffredinol ar y Gymraeg, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth o'r arolwg ar-lein.

Mae adroddiad ymgynghori sy'n amlinellu canfyddiadau'r ymgynghoriad ynghlwm yn Atodiad 2.

2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus - Crynodeb

Cafwyd cyfanswm o ymatebion fel a ganlyn i'r amrywiol weithgareddau ymgynghori:

- Cyfanswm o 133 o ymatebion i'r ddwy fersiwn o'r holiadur (11 yn Gymraeg)
- Roedd y cyfraddau ymateb ar gyfer yr holl gwestiynau yn amrywio o 132 o ymatebion i 104 o ymatebion, h.y. er i ni gael 123 o ymatebion i'r arolwg, nid atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn.
- Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r holiadur llawn (lle nodwyd hynny) o Gastell-nedd a'r ardal o amgylch. Derbyniwyd nifer bach o ymatebion o Bontardawe a'r ardal o amgylch.
- Cafwyd tri ymateb gan grwpiau/sefydliadau, oedd yn cynnwys ein partneriaid allweddol, CGGCNPT a Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot.
- Cafwyd e-bost cefnogol gan Gyngor Cymuned Blaenhonddan yn ogystal.
- Llythyr gan Sioned Williams AS

Rhodddwyd sylw i'r holl safbwyntiau a sylwadau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyn llunio fersiwn derfynol y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu.

Cyfeiriwyd sylwadau penodol i addysg a ddaeth i law ymlaen at y swyddogion perthnasol, i'w nodi a'u hystyried. Roedd rhai o'r sylwadau yn cyfeirio'n benodol at addysg a/neu gamau gweithredu oedd yn rhan o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 (CSGA); ac o ganlyniad fe'u trosglwyddwyd i'r swyddogion perthnasol i'w hystyried.

Y Weledigaeth

- Atebodd 132 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd 71 yn cytuno/yn cytuno'n bendant â'r weledigaeth (53.8% o'r rhai a atebodd y cwestiwn, neu 53.4% o holl ymatebwyr yr arolwg).
- Roedd 42 (31.8%) yn anghytuno/yn anghytuno'n bendant â'r weledigaeth. Fodd bynnag, ar sail rhai o'r sylwadau a gafwyd, roedd ymatebwyr o'r farn mai'r weledigaeth oedd y sefyllfa bresennol, yn hytrach na'r sefyllfa arfaethedig i'r dyfodol o ran yr iaith yng Nghastell-nedd Port Talbot.
- Nid oedd 19 o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno

Y Targed

- Roedd 73 o'r ymatebwyr (55.3% o'r 132 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn) yn cytuno neu'n cytuno'n bendant â'r targed o gynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot.
- Roedd 38 o'r ymatebwyr (28.8% o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn) yn anghytuno/yn anghytuno'n bendant â'r targed. Rhannwyd cymysgedd o deimladau, oedd yn amrywio o gredu 'nad oedd y targed yn ddigon uchel' i'w ddiystyru'n llwyr, gan honni 'does dim pwynt o gwbl. Gwastraff arian'.
- Nododd 18 o'r ymatebwyr 'nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno'.
- Ymateb 3 oedd 'Ddim yn Gwybod'

Y Themâu Strategol:

Thema Strategol 1 – cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr, 85, (sy'n cynrychioli 64.4% o'r 132 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn) yn cytuno/yn cytuno'n bendant â'r thema strategol, tra bod 23 (17.4%) yn anghytuno/yn anghytuno'n bendant. Dywedodd 12 o ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, ac ymateb 2 oedd 'Ddim yn gwybod'.

Meysydd gwaith allweddol	Nifer yr ymatebwyr sy'n cytuno / sy'n cytuno'n bendant	% o'r rhai a atebodd y cwestiwn	% o bawb a ymatebodd i'r arolwg
Cefnogi gweithrediad CSGA 2022-2032	90	70.3	67.7
Trosglwyddiad iaith yn y cartref	80	64	60.2
Cefnogi pobl i ddysgu/siarad Cymraeg	105	83.3	79
Camau Gweithredu posibl			
Hyrwyddo grŵp Facebook 'Welsh Homework Help' i'r holl ddisgyblion o deuluoedd di-Gymraeg ym mlynnyddoedd 5 a 6 sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.	93	73.2	70
Hyrwyddo grŵp Facebook 'Welsh Homework Help' i'r holl ddisgyblion o deuluoedd di-Gymraeg ym mlynnyddoedd 7 ac 8 sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.	90	72	67.7
Diweddarau a hyrwyddo'r llyfryn 'Manteision Dwyieithrwydd/Benefits of Bilingualism'.	79	63.8	59.4
Hyrwyddo'r Gymraeg/addysg Gymraeg ymhlith teuluoedd di-Gymraeg i gynyddu/gefnogi ymwybyddiaeth o'r iaith.	87	70.2	65.4
Sefydlu a hyrwyddo cyrsiau Cymraeg ar gyfer rhieni sy'n anfon eu plant i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.	96	76.8	72.2
Datblygu cyrsiau priodol a chefnogaeth i staff addysgu ac eraill sy'n dysgu Cymraeg	91	72.8	68.4
Archwilio rhwystrau posibl sy'n atal plant o gymunedau BME a grwpiau eraill a dangynrychiolir rhag manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg, a chynyddu'r nifer sydd yn manteisio arni.	78	62.4	68.6
Archwilio rhwystrau posibl sy'n atal oedolion o gymunedau BME a grwpiau eraill a dangynrychiolir rhag manteisio ar gyrsiau Cymraeg i oedolion, a chynyddu'r nifer sydd yn manteisio arnynt.	79	63.2	59.4

Thema Strategol 2 – cynyddu defnydd o'r Gymraeg

Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr (94, 73.4%) yn cytuno/yn cytuno'n bendant. Nododd 10 ymatebydd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, ac ymateb 1 oedd 'Ddim yn gwybod'.

Meysydd gwaith allweddol	Nifer yr ymatebwyr sy'n cytuno/sy'n cytuno'n bendant	% o'r rhai a atebodd y cwestiwn	% o bawb a ymatebodd i'r arolwg
Cefnogi a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol	97	75.2	72.9
Ehangu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle	89	69.5	66.9
Camau Gweithredu Posibl			
Darparu cyfleoedd i'n staff gael mynediad at gyrsiau dysgu/gwella Cymraeg ar lefelau priodol	97	76.4	72.9
Ehangu'r rhaglen hamdden sydd ar gael yn Gymraeg ar draws Castell-nedd Port Talbot.	90	70.3	67.7
Hyrwyddo'r rhaglen hamdden i staff a'r cyhoedd trwy gyhoedduswydd wedi'i dargedu a mwy cyffredinol.	84	67.2	63.2
Archwilio cyfleoedd i gynyddu gwelededd y Gymraeg ym mhob cyfleuster hamdden.	88	70.4	66.2
Hyrwyddo a gwreiddio Polisi'r Cyngor ar gyfer Defnydd Mewnol o'r Gymraeg	85	68	63.9
Archwilio sut mae gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol	90	71.4	68.3
Gweithio gyda phartneriaid i annog mwy o ddefnydd o'r iaith ym mhob clwb ieuenctid	85	68.5	63.9
Hyrwyddo hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith yr holl staff	83	70.2	62.4
Gweithio gyda phartneriaid i nodi cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol.	88	71.5	66.2

Thema Strategol 3 – Creu Amodau Ffatriol: Seilwaith a Chyd-destun

Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr (86, 67.7%) yn cytuno/yn cytuno'n bendant â'r thema strategol, tra bod 20 (15.7%) yn anghytuno/yn anghytuno'n bendant. Nododd 18 o ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, ac ymateb 3 oedd 'Ddim yn gwybod'.

Meysydd gwaith allweddol	Nifer yr ymatebwyr sy'n cytuno/sy'n cytuno'n bendant	% o'r rhai a atebodd y cwestiwn	% o bawb a ymatebodd i'r arolwg
Cynyddu gwelededd yr iaith ar draws yr ardal	93	74.4	69.9
Gwreiddio'r Gymraeg yn ein holl strategaethau a chynlluniau	86	69.4	64.6
Camau Gweithredu Posibl			
Gweithio gyda Chymdeithas y Gymuned BME i archwilio ffyrdd o gynyddu ymwybyddiaeth o iaith a diwylliant Cymru mewn cymunedau	79	64.2	59.4
Datblygu a gweithredu Strategaeth Diwylliant a Threftadaeth newydd sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, defnydd ohoni a'i gwelededd yng Nghastell-nedd Port Talbot	90	73.2	67.7
Datblygu a gweithredu ein polisi mewnol o ran sgiliau iaith ar draws ein meysydd gwasanaeth.	82	66.7	61.7
Sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog wrth ddylunio a chymhwyso technolegau newydd.	77	63.1	57.9
Gweithio gyda'r gymuned fusnes i archwilio cyfleoedd i gynyddu gwelededd y Gymraeg.	86	69.4	64.7
Sicrhau bod iaith, treftadaeth a diwylliant Cymru yn elfen allweddol o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.	84	67.7	63.2
Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu trefniadau coffáu pobl a digwyddiadau ym mholisi'r parth cyhoeddus.	81	65.9	61
Cynnwys y Gymraeg fel elfen allweddol ym mhob polisi a strategaeth i'r dyfodol.	80	66.2	60.27

Themâu cyffredin ar draws yr holl gwestiynau oedd:

- Cefnogi treftadaeth a diwylliant Cymru/hunaniaeth Gymreig
- Dymuno i'r iaith barhau
- Cymraeg yw 'iaith ein gwlad' – dylai fod yn weladwy/wedi'i normaleiddio/yn cynnwys pawb
- Gwersi am ddim/gwersi fforddiadwy/dosbarthiadau nos/ystod eang o fynediad at gyfleoedd iaith a dysgu Cymraeg
- Targed uwch
- Cefnogi 1% fel targed cyflawnadwy
- Dylen ni annog dysgwyr
- Bydd dysgu/siarad Cymraeg yn gwella rhagolygon gyrfa
- Gweithio tuag at weledigaeth Cymraeg 2050 y llywodraeth
- Dysgu Cymraeg i blant yn ifanc/mwy o ysgolion cynradd Cymraeg
- Gwastraff arian cyhoeddus/gwario gormod o arian
- Dim modd cyflawni/dim eisiau
- Dirywiad yn y Gymraeg yn yr ardal
- Diffyg hyder i siarad Cymraeg
- Gorfodi'r Gymraeg ar bobl

Effeithiau'r strategaeth ar y canlynol:

- **Cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg**

Roedd 72.7% o'r ymatebwyr (93 allan o 128) i'r cwestiwn o'r farn y byddai'r strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd pedwar ymatebydd o'r farn y byddai'n cael effaith negyddol, tra bod 31 yn teimlo na fyddai'n cael effaith.

Dyma rai o'r sylwadau a gafwyd:

- 'Bydd yn cynyddu cyfleoedd, ond y cwestiwn yw a fydd mwy yn 'manteisio ar hyn'
- *'bydd y strategaeth yn wneud hi'n mwy derbynniol i defnyddio'r cymraeg ym mywyd bob dydd y gwaith'*
- 'Bydd cynyddu'r cyfleoedd yn aruthrol yn gweithio'n wych i bobl sy'n byw yma'
- 'Bydd pobl yn fwy hyderus wrth geisio defnyddio'r iaith'
- 'Os yw pobl eisiau defnyddio'r Gymraeg, fe allan nhw, ac mae hynny'n iawn, ond ddylai'r iaith ddim cael ei gorfodi ar y rhai sydd ddim'

- 'Mae eisoes yn cael ei gwthio'n ddigonol i wneud y rhai ohonon ni sydd ddim yn Gymry deimlo nad ydyn ni'n cael ein gwerthfawrogi a'n bod ni'n cael ein cau allan'
- 'Mae'r camau a gyflwynwyd yn symudiad cadarnhaol at annog defnydd o'r iaith a'i gwneud yn fwy derbyniol yn ein trefi a'n pentrefi.'

- **Trin y Gymraeg mewn modd nad yw'n llai ffafriol na'r Saesneg**

Roedd 62.4% o'r ymatebwyr (78 allan o 125 o ymatebwyr) o'r farn y byddai effaith gadarnhaol o ran trin y Gymraeg mewn modd 'nad yw'n llai ffafriol' na'r Saesneg, tra bod 7 ymatebydd yn teimlo i'r gwrthwyneb. Roedd 40 o ymatebwyr o'r farn na fyddai'n cael effaith.

- 'Dylai'r holl gamau gweithredu yn y strategaeth helpu i wella'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg'
- 'Mae'n anodd dweud na fydd yn cael ei thrin yn llai ffafriol pan fydd amser ymateb hwy nag i'r Saesneg mewn llawer o achosion, a hynny'n syml oherwydd diffyg adnoddau'
- 'Bydd ymdrech ar y cyd ynddi'i hun yn helpu i godi proffil yr iaith.'
- 'Os caiff y polisi ei weithredu'n effeithiol, gall yr effaith fod yn gadarnhaol iawn. Ond mae'n galw am ymrwymiad nifer o wahanol adrannau o fewn yr awdurdod, a dyna'r her'
- 'Mae % y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref yn dal yn fach, a gallai'r polisi hwn roi cyrff bach neu grwpiau cymunedol o dan anfantais ddifrifol os bydd rhaid iddyn nhw gyhoeddi popeth yn ddwyieithog. Dylen ni ganolbwyntio ar sicrhau bod mwy o bobl yn siarad ac yn defnyddio'r iaith cyn gorfodi costau fydd yn niweidio'r economi leol'
- 'Dwy ddim yn credu bydd y strategaeth yn gwneud gwahaniaeth o ran sut mae'r iaith yn cael ei thrin, ac mewn gwirionedd mae perygl y gallai fod canlyniad negyddol os ceisiwn ni ddefnyddio'r ffon, yn hytrach na'r foronen'.

Sylwadau ar gynyddu'r effeithiau cadarnhaol:

- 'Y ffordd fwyaf effeithiol o gynyddu'r siaradwyr Cymraeg yw sicrhau mwy o ysgolion Cymraeg... does bosib? Ond mae cost i hynny'
- 'Hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith treftadaeth yn unig'
- 'Mae angen annog, nid gorfodi'

- 'Mae angen mwy o ysgolion cynradd Cymraeg yn yr ardal/neu ddarpariaeth dysgu Cymraeg ddwys, fel bod plant hŷn na'r babanod yn gallu ymuno â'r ysgol'
- 'Byddai grwpiau dysgu Cymraeg a grwpiau cymdeithasol sy'n rhoi cyfle i ymarfer o gymorth i oedolion'.

Sylwadau ar leihau effeithiau negyddol:

- 'Mae arweinyddiaeth a chefnogaeth o'r brig yn bwysig i sicrhau'r newid mwyaf posibl mewn agweddau'.
- 'Does dim effeithiau negyddol i hyrwyddo a thyfu'r Gymraeg.
- '...annog nid gorfodi'
- *'Wrth i'r iaith cael ei weld a'i ddefnyddio fwy fyth gan y Cyngor fe fydd wedyn yn cael ei dderbyn fel rhan annatod o'u bywyd pob dydd'*
- 'Caniatáu i gwsmeriaid 'optio' i mewn os bydd angen – cost effeithiol'.

Effeithiau'r strategaeth ar nodweddion gwarchoddedig

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi effaith y strategaeth arnyn nhw neu eu teulu yn sgîl nodwedd warchoddedig, ac er bod y mwyafrif o'r farn nad oedd effaith, teimlai nifer cymharol fach i'r gwrthwyneb. Gwaetha'r modd, ni roddwyd gwybodaeth bellach ynghylch natur yr effaith hon yn y rhan fwyaf o achosion.

Serch hynny, daeth ambell sylw i law y gellid eu cysylltu â'r canlynol:

Oedran:

- 'Mae oed fy mhlant yn golygu eu bod yn yr ysgol, felly gallai effeithio arnyn nhw trwy eu haddysg'
- '...efallai bod rhai yn y genhedlaeth hŷn fyddai ddim yn dymuno dysgu...'
- 'Mae'n anoddach dysgu pan fyddwch chi'n hŷn oherwydd eich bod chi'n fwy prysur ac mae ymrwymadau eraill'
- 'Bydd y strategaeth yn cael effaith gadarnhaol'

Anabledd:

- 'Mae llawer o'm teulu yn byw gydag anableddau meddyliol, ac yn cael trafferth deall neu ddysgu yn Saesneg. Bydd gorfodi mwy o Gymraeg ar ben y system addysg ofnadwy, sydd eisoes yn achosi straen, yn cael effaith negyddol arnyn nhw a phobl debyg iddyn nhw'
- 'Dyslecsia'

- ‘...byddai cynnig gwell mynediad i fedru dysgu yn bendant yn cael effaith arna i, ond petaech chi’n parhau i weithredu fel rydych chi all-lein, ond yn cofnodi hynny ar-lein – byddai hynny o gymorth i fi a’m hanabledd, oherwydd weithiau rwy’n methu mynd allan, felly byddwn i’n dal i fedru ymgysylltu ar-lein...’

3. Newidiadau a wnaed wedi’r ymgynghori

O ganlyniad i’r sylwadau a ddaeth i law, gwnaed nifer o newidiadau i’r strategaeth er mwyn rhoi eglurhad ar adrannau penodol, tra bod camau gweithredu ychwanegol wedi cael eu datblygu i adlewyrchu sylwadau/awgrymiadau a wnaed.

Mae rhai awgrymiadau/sylwadau pellach yn dal i gael eu hystyried, a bydd unrhyw gamau sy’n datblygu o ganlyniad iddynt yn cael eu cynnwys yn y cynllun gweithredu cyn gynted ag sy’n ymarferol bosibl.

Sylw	Newid
Doedd y weledigaeth ddim yn cael ei hystyried yn gymaint â’r sefyllfa gyfredol yng Nghastell-nedd Port Talbot	Cynnwys testun ychwanegol yn y weledigaeth i ddangos yn eglur mai gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yw hi
Mae clywed yr iaith yn cael ei siarad mor allweddol â’i bod yn weladwy	Gwnaed newid i’r weledigaeth i adlewyrchu hyn
Dyw’r targed ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ddim yn ddigon heriol a dylai fod yn uwch (a methiant) blaenorol; dyw’r Gymraeg yn dal ddim yn gyffredin	Testun ychwanegol i bwysleisio bod y targed a nodir yn y strategaeth yn un interim ac i gael ei adolygu yng ngoleuni casgliad dadansoddiad llawn o’r holl ddata perthnasol
Hyrwyddo’r iaith yn cael ei ystyried yn wastraff arian cyhoeddus, yn arbennig yn yr hinsawdd presennol	Testun ychwanegol i gryfhau’r safbwynt o ran yr adnoddau a nodwyd i gyflawni nodau’r strategaeth

Awgrym	Camau Gweithredu Ychwanegol
Cael hyd i gyrsiau Cymraeg fforddiadwy	Hyrwyddo a datblygu ymhellach sesiynau ‘Hyder-ish’ (gwella sgiliau iaith/hyder wrth ddefnyddio’r Gymraeg) ar draws yr ardal
Annog busnesau i hyrwyddo’r Gymraeg	Hyrwyddo gwasanaeth cyfieithu a chynngor di-dâl Busnes Cymru, Helo Blod, ymhlith ein cymuned fusnes

Gwnaed nifer o sylwadau sy'n ymwneud â meysydd gwasanaeth penodol a throsglwyddwyd y rhain, fel y'u rhestrir yn y tabl isod, i'r gwasanaeth perthnasol i'w hystyried.

Awgrym/Sylw	Anfon ymlaen at	Ymateb y Gwasanaeth
<p>'Dylid diwygio'r system addysg i sicrhau bod Cymraeg yn cael ei hastudio at ruglder ymhlith y cenedlaethau iau hefyd, gan greu cenedlaethau dwyieithog/amlieithog i'r dyfodol'.</p>	<p>Addysg</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ar lefel leol, mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yn cynnwys targedau ar gyfer sicrhau bod ysgolion ar y continwwm iaith. Bydd tair ysgol beilot (dwy gynradd ac un uwchradd) yn datblygu eu continwwm iaith er mwyn symud yn nes at nod uchelgeisiol lefel B2 ar Fframwaith Cyfeiriadol Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd (CEFR), fel y nodir yng nghynnig y Bill Addysg Gymraeg, a hynny yn ystod 5 mlynedd cyntaf y CSGA. Bydd hynny wedyn yn cael ei estyn i ysgolion eraill yn ail hanner y CSGA. • Ar lefel Genedlaethol – mae'r Cwricwlwm Newydd i Gymru yn weithredol ym mhob ysgol gynradd ac yn cael ei hestyn i bob ysgol uwchradd, gyda ffocws ar Gymraeg fel iaith a diwylliant. • Bydd yr ymgynghori ar y Bil

		Addysg Gymraeg yn dod i ben ar 16 Mehefin. Bydd y bil yn cefnogi dysgwyr i symud ar hyd y continwwm iaith a gweithio tuag at lefel B2.
'Cynnwys ysgolion lleol er mwyn arddangos ffurfiau Cymraeg dealladwy i blant mewn trefi a phentrefi lleol, ac ymgysylltu â phob cenhedlaeth'	Addysg	Mae targedau yn y CSGA (gyda phwyslais ar Ddeilliant 5) yn cynnwys hyn.
'Nid plant mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yw'r unig unigolion sy'n gallu dilyn cwrs TGAU a lefel A Cymraeg iaith gyntaf ac sydd am wneud hynny. Mae'r rhai sydd mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn aml yn cael eu gorfodi i sefyll yr arholiad Cymraeg ail iaith oherwydd nad oes gan staff sy'n addysgu'r cwrs Cymraeg ail iaith, i bob golwg, sgiliau sy'n eu galluogi i addysgu'r maes llafur Cymraeg iaith gyntaf. Dylai'r 'e-sgol' gynnig TGAU Cymraeg iaith gyntaf yn gwrs i bob plentyn yng Nghymru sy'n cyrraedd safon benodol erbyn diwedd yr ysgol gynradd, pa ysgol bynnag maen nhw'n ei mynychu, fel bod gan bob plentyn hawl i sicrhau cymhwyster Cymraeg iaith gyntaf yn yr ysgol uwchradd. Dylai hefyd gynnig cymhwyster TGAU a lefel-A Cymraeg iaith gyntaf i bob	Addysg	<ul style="list-style-type: none"> • Mae diwygio'r cwricwlwm yn dechrau rhoi sylw i hyn. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno'n raddol i ysgolion uwchradd, gyda phwyslais ar y continwwm iaith (beth bynnag yw categori iaith yr ysgol) • Mae'r ymgynghori ar y Bil Addysg Gymraeg yn cau ar 16 Mehefin. Bydd y bil yn cefnogi dysgwyr i symud ar hyd y continwwm iaith a gweithio tuag at lefel B2.

<p>oedolyn yng Nghymru sydd eisiau hynny, fel bod y rhai sydd wedi gweithio'n galed i feistrolï'r iaith yn caffael y cymhwyster maen nhw'n ei haeddu. Yn y Deyrnas Unedig, cynigir cymwysterau IGCSE mewn iaith a llenyddiaeth Saesneg, Ffrangeg a Sbaeneg, felly pam nid Cymraeg.'</p>		
<p>'Bod yr holl ysgolion yn rhai cyfrwng Cymraeg'</p>	<p>Addysg</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Un ysgol cyfrwng Cymraeg (CC) ar agor yn Sgiwen
<p>'Mae angen ysgol gynradd Gymraeg arall arnon ni ym Mhort Talbot'</p>	<p>Addysg</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd 2 ysgol ychwanegol CC yn cael eu hadeiladu yn ystod oes y CSGA (mewn ardaloedd lle mae angen cynyddu/hyrwyddo'r iaith)
<p>'Hefyd mae angen mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg a gwell cyfleusterau yn y rhai sydd gennym eisoes. Byddai mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol yn helpu i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg'.</p>	<p>Addysg</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Canolfan Drochi ar agor yng ngogledd y fwrdeistref sirol. Bydd ail ganolfan drochi yn agor yn adeilad newydd YGG Rhosafan
<p>'Os yr ydym o ddifri ynglŷn â chynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg tu fewn y Sir rhaid darparu fwy o ysgolion cynradd Cymraeg eu hiaith; un ysgol gynradd gyfrwng Cymraeg mae CCNPT wedi agor ers ei sefydlu. Agorwyd mwy o ysgolion Cymraeg eu hiaith ym Mhatagonia a Sir Fynwy dros yr un cyfnod nag yn CNPT.</p>	<p>Addysg</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd YGG Rhosafan, prosiect 'blaenllaw Llywodraeth Cymru', a adeiladir o'r newydd (carbon sero net), yn cael ei hadeiladu o fewn 3 blynedd • Bydd gofal plant a chyfleusterau gofal di-fwlch ar gael yn yr holl ysgolion CC o fewn 18 mis. Mae dwy ysgol CC sydd heb ofal

		<p>plant/ofal di-fwlch wrthi'n agor y cyfleusterau hynny ar hyn o bryd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgynghoriad ar y Bil Addysg Gymraeg yn datgan y bydd pob ysgol yn ysgolion Categori 3 (CC), oni bai bod achos cryf o blaid ysgol Cyfrwng Saesneg (CS), e.e. cyfuno ysgolion CS sydd eisoes yn bodoli. Mewn achosion o'r fath, bydd angen cynyddu faint o Gymraeg sy'n cael ei gyflwyno yn yr ysgol CS newydd. • Mae'r ymgynghoriad ar gyfer y Bill Addysg Gymraeg yn datgan y bydd rhaid i bob ysgol ddangos cynnydd ar hyd y continwrm iaith tuag at lefel B2. • Cyflwynir targedau meintiol clir i gynyddu canran y disgyblion mewn addysg CC yn y CSGA.
<p>'Rwy'n athro sy'n ddiweddar wedi cwblhau'r Cwrs Cymraeg Sabothol. Roedd yr hyfforddiant yma mor fuddiol i athrawon sy'n dysgu plant yng Nghymru.'</p>	<p>Addysg</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd Deilliant 7 y CSGA yn rhoi sylw i anghenion staffio a hyfforddi. Mae cefnogaeth a chontinwrm caffael iaith ar gyfer athrawon mewn ysgolion CS yn

		<p>cael eu mapio ar hyn o bryd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Bil Addysg Gymraeg yn datgan y bydd pwynt cyswllt canolog ar gyfer datblygu hyfforddiant a iaith yn cael ei greu yng Nghymru i sicrhau cysondeb ac argaeledd hyfforddi a datblygu.
<p>'Hyd nes bod cytundeb a safoni o ran y Gymraeg, mae'r modd yr addysgir yr iaith yn ddiffygiol. Gwelir hyn yn y modd y mae'n cael ei dysgu mewn ysgolion Cymraeg iaith gyntaf ac ysgolion Saesneg iaith gyntaf. Mae ysgolion Saesneg iaith gyntaf yn defnyddio fersiwn wedi'i gorsymleiddio y gall athrawon Cymraeg iaith gyntaf fod yn sarhaus iawn yn ei chylch. Hefyd, gallwch chi gael grŵp o athrawon Cymraeg, a does dim un ohonyn nhw'n gallu cytuno ar y treigladau neu pa air ddylai gael ei ddefnyddio'.</p>	Addysg	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y Bil Addysg Gymraeg arfaethedig yn sicrhau cysondeb ar y continwmm iaith er mwyn cyflawni lefel B2 • Manylir ar ddilyniant iaith hefyd yn y Cwricwlwm i Gymru
<p>'Mae angen hyrwyddo addysg Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Ochr yn ochr â chynnig cefnogaeth i rieni di-Gymraeg – fel eu bod yn dod i ddeall y byddan nhw'n gallu cefnogi eu plant yn yr ysgolion Cymraeg.'</p>	Addysg	<ul style="list-style-type: none"> • Yn derbyn sylw ar draws y CSGA, gyda'r prif ffocws yn Neilliant 1. Mae gwaith gyda'r Mudiad Meithrin, Menter Iaith CNPT a phartneriaid Blynyddoedd Cynnar wedi

		<p>cychwyn, gyda ffocws ar hyrwyddo o'r cyfnod cyn geni (bydwreigiaeth) hyd at 18 oed</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llwybr a chefnogaeth clir i gael eu mapio er mwyn cynyddu hyder rhieni. • Hyrwyddo hefyd yn cael ei gynnwys yn y Bil Addysg Gymraeg.
<p>'Ddylai athrawon Saesneg eu hiaith ddim cael eu gorfodi i gyflwyno cwricwlwm mewn unrhyw iaith arall. Ddylen nhw ddim cael eu gorfodi i wastraffu eu hamser yn ceisio darbwylo plant bod Cymraeg yn ddefnyddiol pan fo cyn lleied o bobl yn credu hynny. System ddwy haen ar sail dewis rhieni – ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Dylai ysgolion cyfrwng Saesneg ddysgu'r Cwricwlwm Cymreig yn unig, e.e. dathlu bod yn Gymry a Chynefin. Yn achos y rhieni hynny sy'n dewis anfon eu plentyn i ysgol Gymraeg, dylai cyrsiau fod ar gael iddyn nhw i ddysgu Cymraeg i gefnogi eu plant, ond nhw ddylai dalu'r gost, nid y trethdalwr, oni bai bod unrhyw deulu yn derbyn budd-daliadau ac yn methu talu (byddai'n gwahaniaethu yn eu herbyn ac yn</p>	<p>Addysg</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae dyletswydd ar ysgolion i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru

<p>annheg atal unrhyw berson oedd wir am ddysgu Cymraeg i gefnogi eu plentyn petaen nhw'n methu fforddio gwneud hynny.'</p>		
<p>'Yr unig ffordd mewn gwirionedd o annog pobl ddi-Gymraeg i ddysgu Cymraeg yw darparu addysg feithrin gwbl ddwyieithog a hefyd (yn ddelfrydol) addysg Blynyddoedd Cynnar gwbl ddwyieithog, fel bod pob plentyn yn ddwyieithog erbyn cyrraedd 5 neu 7 oed. Cefnogi hynny â dosbarthiadau i rieni.'</p>	<p>Addysg</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae deilliant 1 y CSGA yn cefnogi'r cynnydd mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg/dwyieithog • Mae deilliant 5 y CSGA yn cefnogi rhieni/gofalwyr ag ystod o wahanol gyfleoedd, o gyrsiau Cymraeg a diwrnodau i'r teulu i gymorth gyda gwaith cartref a dosbarthiadau cefnogi darllen
<p>'Dyw dwyieithrwydd ddim yn gweithio oherwydd bod dim ots am y Gymraeg gan athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, a dydyn nhw ddim chwaith yn ceisio'i normaleiddio [ar sail fy mhrofiad personol]. Mae athrawon yn gwneud gormod o waith am gyflog annigonol, felly dim ond pan fydd gofal a fframwaith i weithio ohono y bydd digon o ofal am y pwnc i'w addysgu'n dringar mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae bod yn amlieithog neu'n ddwyieithog yn wych ac yn gweithio, ond o ran cymhwysu proses a strategaeth er mwyn cyflawni hynny: mae'n</p>	<p>Addysg</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r CSGA a'r Bil Addysg Gymraeg yn amlinellu'r strategaethau hyrwyddo a'r hyfforddiant a'r gefnogaeth fydd ar gael i'r staff. Bydd yr hyfforddiant yma'n cael ei strwythuro i sicrhau dilyniant a chysondeb. • Mae'r Bil Addysg Gymraeg yn datgan y bydd pwynt cyswllt canolog ar gyfer datblygu iaith a hyfforddiant yn cael ei greu yng Nghymru i sicrhau cysondeb ac

